



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 3 Mehefin 2014 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 3 June 2014 at 6.30pm at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors** Graham Evans (*yn y gadair/in the chair*), John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Clive Davies, Llwyd Edwards, Melydd George, Gwynfi Jenkins, Richard Jones, Catrin Miles, Jane Roche.

**1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**  
The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer, y Cyng. Graham Evans, bawb i'w gyfarfod llawn cyntaf fel Cadeirydd. Cyfeiriodd at ddigwyddiad Gorymdaith Baton y Frenhines a deithiodd drwy'r dref ddydd Mercher, 28 Mai, a llongyfarchodd y plant ieuainc, sef Lowri Adams-Lewis, Iestyn Evans, Tessa Hieatt a George Monders, am ei gario ar hyd y strydoedd. Yn yr un modd, llongyfarchwyd Jason Johnston, Côr Ysgol Uwchradd Blynnyddoedd 7,8,9 a Hannah a Libby Smith-Lorenz ar eu llwyddiannau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala.**

The Mayor, Cllr Graham Evans, welcomed everyone to his first full meeting as Chair of the council. He referred to the procession of the Queen's Baton through the streets of Cardigan on Wednesday, 28 May; congratulations were extended to the four young pupils who accompanied the baton, viz Lowri Adams-Lewis, Iestyn Evans, Tessa Hieatt and George Monders. The Mayor also commended Jason Johnston, the Choir of Years 7,8,9 of Ysgol Uwchradd Aberteifi, and Hannah and Libby Smith-Lorenz on their successes at the National Urdd Eisteddfod in Bala.

**2. Ymddiheuriadau / Apologies:**

Y Cynghorwyr/Councillors Akira Shimazaki (*gwyliau/holidays*), Mark Cole (*dyletswyddau gwaith/work commitments*), Ken Edwards (*dyletswyddau gwaith/work commitments*).

**3. Cyflwyniad / Presentation: Commercial Christmas Ltd., Llanelli**  
**"Goleuadau Nadolig / Christmas Lights"**

**Croesawodd y Maer y Mri Tim ac Allan Lewis, Commercial Christmas Cyf., cyn eu gwahodd i gyflwyno eu cynnyrch. Gellir pwrcasu'r goleuadau neu eu hurio, ac mae gan y cwmni y gweithwyr i'w harchwilio, eu codi a'u tynnu ymaith os dymunir. Cydnabyddir eu gwasanaeth gan Un Llais Cymru, cofrestrwyd gan NICEIC, ac mae ganddynt dystysgrif CS39. Yn dilyn sesiwn o gwestiynau ac atebion, cytunwyd gofyn i'r Mri Lewis baratoi amrywiaeth o gynlluniau i'w trafod gan y cyngor. Addawyd samplau a phrisiau ganddynt erbyn cyfarfod yr is-bwyllgorau ar 17 Mehefin. Diolchodd y Maer i'r ddau am eu cyflwyniad.**

The Mayor welcomed Messrs Tim and Allan Lewis from Commercial Christmas Ltd. and invited them to give a presentation on their product. Christmas lights could be purchased outright or hired, and the company had the work force available to inspect, erect and dismantle the wiring if and when required. The company is recognised by One Voice Wales, is NICEIC registered and GS39 certified. Following a discussion and a question and answers session, it was agreed to request Messrs Lewis to provide quotations of various projects and designs which might be acceptable to the council. Samples and prices will be available for scrutiny at the next sub-committee meeting on 17 June. The Mayor duly thanked Messrs Lewis for their presentation.

**4. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.**  
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

**5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Mai**  
Confirmation of Minutes of 6 May Council Meeting.

**Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins bod cofnodion mis Mai yn gywir.**

Cllr John Adams-Lewis proposed that the May minutes were correct; this was seconded by Cllr Gwynfi Jenkins.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**Mynychwyd y canlynol gan y Maer: Apêl Dylan Rees ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed, Cymanfa Ganu Capel Mair, Seremoni Sefydlu Maer Castellnewydd Emlyn, Dathliad Hanner Can Mlynedd Cymdeithas Gelf Aberteifi, Bore Coffi'r Lleng Brydeinig, taith y Pwyllgor Gefeillio i Brioude pan gyflwynwyd anrhegion i'r Maer, Jean-Jacques Faucher, a derbyniwyd anrheg o lun oddi wrth yntau hefyd. Diolchodd y Maer i bawb a fynychodd Wasanaeth Dinesig y Maer ar 25 Mai.**

The following events were attended by the Mayor: The Dylan Rees Appeal at King George 5<sup>th</sup> Playing Field, Cymanfa Ganu Capel Mair, the Mayor Installation Ceremony at Newcastle Emlyn, 50 Years' Celebration of Cardigan Art Society, the British Legion coffee morning, the bi-annual twinning trip to Brioude where presentations were made to the Mayor, Jean-Jacques Faucher, who responded in kind. Cllr Evans thanked everyone who attended the Mayor's Civic Service on 25 May.

**8. Cynllunio / Planning**

**Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:**

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Penderfyniad / Decision</i>
A130697	4-5- William Street	Change of use from Optician shop (A1) to two residential dwellings. Partition wall to make two separate houses as originally was	<i>Wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> Permission has been granted with conditions (2)

**9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.**

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Taledigion / Payee</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
1/6/14	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa</i> /Rent of Office	A7	D/D	£238.33 (0.00)
15/5/14	Jilly Flowers: <i>Blodau</i> / Flowers for Mayor's Installation Ceremony	A2	3962	£34.00 (0.00)
13/5/14	Tesco, Co-op Stores, Mantle Brewery Ltd.: <i>Gwin</i> /wine, etc for Mayor's Installation Ceremony	A2	3962	£146.56 (15.59)
10/5/14	Ystwyth Cerdd Music: <i>Rhodd</i> / Gift to Miss Gwenllian Hunting-Morris ( <i>telynores</i> /harpist)	A2	3962	£15.00 (0.00)
13/5/14	Mrs Norma Winston-Jones: <i>Bwffe at Seremoni Sefydlu'r Maer</i> / Buffet for the Mayor's Installation Ceremony: 60 official guests @ £6.00	A2	3963	£360.00 (0.00)
3/5/14	<i>Argraffwyr</i> E. L. Jones Printers: <i>Gwahoddiadau, Amlenni a Thafenni</i> / Invitations, Envelopes and Leaflets (Mayor's Installation Ceremony)	A2	3964	£201.60 (17.60)
20/5/14	Newsquest: <i>Hysbyseb</i> / Advert (Mayor's Installation Ceremony)	A2	3965	101.52 (16.92)
29/5/14	Menter Aberteifi: <i>Hurio'r holl ystafelloedd</i> /Hire of all rooms for Mayor's Installation Ceremony	A2	3966	£122.00 (0.00)
19/5/14	Cyngor Sir Ceredigion County Council: <i>Cyfraniad at baentio'r biniau sbwriel</i> / Contribution towards the repainting of litter bins in town centre.	C3	3967	£50.00 (10.00)
24/4/14	Menter Aberteifi: <i>Hurio Ystafell Radley at Noson Cyflwyno Rhoddion</i> / Hire of Ystafell Radley for Grant Presentation Evening (24/4/14)	A7	3968	£20.50 (0.00)
31/5/14	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc</i> /Clerk's Salary ( <i>Mai/May</i> )	A3	3969	£737.40 (0.00)

30/4/14	Trywydd ( <i>Cyfieithu ar y pryd/Simultaneous translation</i> ) (1/4/14)	A17	3970	£113.40 (18.90)
15/5/14	Zurich Municipal: <i>Yswiriant y Cyngor /Council Insurance</i> (7/6/14 – 6/6/15)	A9	3971	£3,486.57 (0.00)
20/5/14	HMRC: PAYE £140.94, Class 1 NIC £33.79	A15	3972	£174.73 (0.00)
1/6/14	Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd. Rent of Conference Room</i> (6/5/14 & 20/5/14)	A7	3973	£60.00 (10.00)
1/6/14	Mr John Harman ( <i>Brysgyllwr / Mace bearer</i> )	A4	3974	£140.00 (0.00)
1/6/14	Mr Richard Harman ( <i>Brysgyllwr / Mace bearer</i> )	A4	3975	£140.00 (0.00)
1/6/14	<i>Lwfans y Maer / Mayor's Allowance</i> (50%)	A1	3976	£1,600.00 (0.00)
1/6/14	<i>Rhodion y Maer / Mayor's Donations</i>	D1	3977	£620.00 (0.00)
30/5/14	D. G. Trem: <i>Blodau canol dref/Town centre flowers</i>	C2	3978	£348.00 (0.00)
31/5/14	<i>Bachan Deche / Handyperson (Mai/May)</i>	A18	3979	£201.60 (33.60)
31/5/14	Mrs Lynne Davies: <i>Bwyd wedi'r Gwasanaeth Dinesig. Refreshments following Civic Service: 60 official guests @ £4.00</i>	A2	3980	£240.00 (0.00)
3/6/14	Y Cyng. D. Graham Evans: <i>Costau teithio i Brioude. Travelling expenses to Brioude</i>	B6	3981	£214.00 (0.00)
3/6/14	<i>Awen Teifi: Anrhegion i'w cyflwyno yn Brioude. Official presents to be presented in Brioude</i>	B6	3982	£30.57 (5.09)

**Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y biliau uchod i'w talu.**

It was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Dai Brabrook that all the above bills be paid.

*Derbyniadau/Receipts:* 9/4/14 Llog y Banc/Bank Interest £1.41  
28/4/14 Clwb Rygbi Aberteifi/Cardigan RFC £250.00  
(*prydles [rhannol] / lease [part payment]*)

*Cronfa'r Maer / Mayor's Fund:*  
27/5/14 Casgliad yr Oedfa Ddinesig / Civic Service Collection £80.00

**10. Toiledau Cyhoeddus / Public Conveniences.**

**Gyda siom y derbyniwyd gohebiaeth Mr Paul Arnold yn hysbysu nad oedd y cyngor sir yn barod i dderbyn argymhellion Cyngor Tref Aberteifi a anfonwyd ar 11 Chwefror. Yn yr un modd, syndod oedd derbyn nad oedd y cyngor sir wedi ymateb i ymholiadau'r cyngor am gopi o bolisi yr awdurdod ar anghenion pobl yn byw mewn cymuned sydd yn newid cymaint yn ddemograffig. Cytunwyd anfon llythyr yn mynegi teimladau'r cyngor gyda chopi at y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Adran y Priffyrdd, Eiddo a Gwaith. Cytunodd y Cyng. Catrin Miles a Jane Roche gysylltu â'r clerc i baratoi ymateb cadarn.**

It was with disappointment that the council received the correspondence from Mr Paul Arnold informing Cardigan Town Council that the county council is unable to accept the offer made by the town council on 11 February. Further dismay was expressed that no response was made to the request for a copy of the authority's policy on the assessment of needs of people who live in a constantly-changing demographic society. It was agreed that a letter be forwarded expressing the town council's views on the matter with a copy to the Chief Executive and the Director of Highways, Property & Works department. Cllrs Catrin Miles and Jane Roche agreed to liaise with the clerk to formulate a firm response.

**11. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) Mae'r clirffordd bellach wedi ei sefydlu ar Rodfa'r Felin, a bu'r Swyddogion Gorfodi Sifil yn brysur iawn. Ychwanegodd y Cyng. Gwynfi Jenkins ei anfodlonrwydd am nad oedd rhybudd digonol wedi ei roi i'r modurwyr.
- (ii) Roedd y Cyng. Adams-Lewis, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y cyngor sir, yn bles iawn i fod yn rhan o ddatliadau Baton y Frenhines ar hyd de Ceredigion.
- (iii) Bu'r Cynghorydd Adams-Lewis yn croesawu carfan o deithwyr o'r Wladfa yn Amgueddfa Wlân Drefach Felindre cyn iddynt deithio i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala. Aethant ymlaen wedyn i Gaernarfon, sef efeilldref Trelew.

- (iv) Mae sefyllfa datblygiad Tai Ceredigion ym Maes-yr-haf yn warthus. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu atynt i glirio'r llanast a adawyd ganddynt cynted â phosib.
- (v) Sbwriel o amgylch archfarchnad Tesco: gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y rheolwr yn achwyn am y sefyllfa annerbyniol sydd yno.

**(b) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) Gwyntyllodd y Cyng. Miles brofiadau'r Maer a'r Faeres i Brioude yn ddiweddar pan oeddent yno ar wahoddiad Maer y dref honno, M Jean-Jacques Faucher, i ddathlu "Brioude Expo 2014". Dosbarthwyd deunydd marchnata a dvd "Darganfod Ceredigion" Cyngor Sir Ceredigion. Edrychir ymlaen i'w gwahodd yn ôl i'r dref yn ystod y gwanwyn nesaf gyda'r gobaith y byddant yma i ddathlu agoriad swyddogol Castell Aberteifi. Ychwanegodd y Cyng. Miles bod trefniadau ar y gweill i hybu rhagor o weithgareddau i ieuencid y ddwy dref.
- (ii) Bydd cynllun datblygiad y cyfleusterau iechyd newydd ar safle Bath House o flaen Pwyllgor Rheoli Datblygu Cyngor Sir Ceredigion yn ystod mis Ionawr 2015; edrychir ymlaen i ddechrau'r gwaith y mis Chwefror canlynol.
- (iii) Cynhelir wythnos prynu'n lleol "Y Gorau o Ddyffryn Teifi" gan ddechrau ar sgwâr Neuadd y Dref ar 18 Mehefin.
- (iv) Mae'r gwaith ar y bandstand yng Ngerddi Victoria yn symud ymlaen yn gyflym; ceir trefniadau o'r digwyddiad i'w agor yn swyddogol ymhen ychydig.

**(a) Cllr John Adams-Lewis:**

- (i) The clearway at Rhodfa'r Felin has now been established; the Civil Enforcement Officers have had a busy time. Cllr Gwynfi Jenkins voiced his concerns that motorists had not received sufficient notice of the restriction.
- (ii) Cllr Adams-Lewis, as Chairman of the county council, was pleased to be closely associated with the celebration of the Queen's Baton as it proceeded on its journey through south Ceredigion.
- (iii) Cllr Adams-Lewis welcomed a contingent of visitors from Trelew, Patagonia, at the Drefach Felindre Woollen Museum, who then continued their journey to the National Urdd Eisteddfod at Bala, before proceeding to their twin-town of Caernarfon.
- (iv) The condition of the building site left by Tai Ceredigion at Maes-yr-haf is totally unacceptable. The clerk was asked to request the company to clear the site as soon as possible.
- (v) Rubbish outside the Tesco supermarket: the clerk was asked to draw the manager's attention to the undesirable condition of the environment.

**(b) Cllr Catrin Miles:**

- (i) Cllr Miles highlighted the events experienced by the Mayor and Mayoress during the few days spent in Brioude following an invitation from the Mayor of the town, M. Jean-Jacques Faucher, to celebrate "Brioude Expo 2014". Ceredigion County Council marketing material and a dvd "Darganfod Ceredigion" were distributed. The return trip next spring is eagerly awaited when, hopefully, the official opening of Cardigan Castle will take place. Cllr Miles added that plans are afoot to generate more youth involvement between the twin-towns.
- (ii) The plans for the new health facility at the Bath House site will be discussed by the Development Control Committee of Ceredigion County Council during January 2015; the work will then commence in February.
- (iii) The "Best of the Teifi Valley" initiative will commence at the Guildhall square on 18 June.
- (iv) The final work on the bandstand in Victoria Gardens is reaching its conclusion; the official opening will be organised in due course.

**12. Gohebiaeth / Correspondence.**

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
57	CSC/CCC (Stephen Johnson): Taliad grant Balchder Pentrefi grant payment (£13,830.00)	<i>Wedi ei dalu'n uniongyrchol i'r banc. Paid electronically to bank account.</i>

58	CSC/CCC (Bronwen Morgan): <i>Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/The Annual General Meeting (rearranged 21/5/14)</i>	<i>Llongyfarchodd y Maer y Cynghorydd John Adams-Lewis ar gael ei ailethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion oherwydd anhwyldeb y Cadeirydd Etholedig, y Cyng. Towyn Evans.</i> The Mayor congratulated Cllr John Adams-Lewis on being re-elected Chairman of Ceredigion County Council due to the indisposition of the Chair-Elect, Cllr Towyn Evans.
59	CSC/CCC (Paul Arnold): <i>Toiledau Cyhoeddus Aberteifi / Cardigan Public Conveniences – cadarnhad bod y cyngor sir yn gwrthod cynnig arfaethedig cyngor y dref / confirmation that the county council is unable to accept the offer made by the town council.</i>	<i>Copi wedi ei anfon i bob cynghorydd. Trafodwyd tan eitem 10 (gweler uchod).</i> Copy forwarded to all councillors. Discussed under item 10 (see above)
60	<i>Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i Seremoni Sefydlu'r Maer, 14/5/14.</i> Newcastle Emlyn Town Council: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Mayoral Installation, 14/5/14	<i>Mae'r Maer a'r Faeres wedi mynychu'r Seremoni.</i> The Mayor and Mayoress have attended the Ceremony.
61	<i>Cymdeithas Gelf Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer agor yr arddangosfa, 23/5/14.</i> Cardigan Art Society: Invitation to the Mayor to open the exhibition, 23/5/14.	<i>Mae'r Maer wedi cyflawni'r ddefod. The Mayor has opened the exhibition.</i>
62	<i>Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru: Ymateb oddi wrth yr awdurdod ynglŷn â symud yr Ystafell Reoli i Benybont-ar-Ogwr.</i> Mid and West Wales Fire & Rescue Service: Response regarding the transfer the control room to Bridgend.	<i>Copi wedi ei anfon i'r Cyng. Dai Brabrook.</i> Copy sent to Cllr Dai Brabrook.
63	Mark Williams AS/MP: <i>Poster o'i gymorthfeydd.</i> Poster of surgeries.	<i>Poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Poster displayed on notice board.
64	Zurich Municipal: <i>Cadarnhad o'r wybodaeth a roddwyd i'r cwmni bod cadwyn y Maer i'w chario i Brioude.</i> Confirmation from the company of receipt of information that the Mayor chain of office would be taken to Brioude.	<i>Cadarnhaodd y Maer bod ei gadwyn wedi dychwelyd yn ddiogel wedi'r daith i Brioude.</i> The Mayor confirmed that the chain of office was in safe custody following the journey to Brioude.
65	M Jean Jacques Faucher (Maer/Mayor of Brioude): <i>Gwahoddiad i Arddangosfa Brioude/Invitation to the Brioude Expo 29/5/14</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
66	<i>Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: Arolwg (Holiadur i'w gwblhau).</i> Independent Remuneration Panel for Wales: Survey (Questionnaire to be completed)	<i>Cytunodd y Maer a'r Dirprwy Faer lanw'r holiadur.</i> The Mayor and Deputy Mayor agreed to complete the questionnaire.
67	ROSPA: <i>Cadarnhad o archwiliad y meysydd chwarae gan y cwmni yn ystod mis Mehefin.</i> Confirmation of the company's inspection of the playing fields in June.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
68	<i>Comisiynydd Heddlu a Throseddau: Cadarnhad o'i ymweliad â'r cyngor ar 25/11/14 o 11.30-12.15pm.</i> Police & Crime Commissioner: Confirmation of his visit to the council on 25/11/14, 11.30-12.15pm	<i>Nodwyd.</i> Noted.
69	<i>Sefydliad Prydeinig y Galon, Cangen Aberystwyth Branch British Heart Foundation: Cais am lythyr o gefnogaeth/</i> Application for a letter of support regarding the closing of cardiac clinics at Bronglais Hospital, Aberystwyth	<i>Cytunwyd anfon llythyr at y Prif Weinidog yn cefnogi'r ymgyrch.</i> <i>It was agreed to forward a letter of support to the First Minister.</i>
70	<i>4CG: Cais am lythyr o gefnogaeth.</i> Application for letter of support regarding the development of a fish market initiative.	<i>Llythyr wedi ei anfon at y cwmni.</i> Letter has been forwarded to the company, 27/5/14.
71	<i>Ffederasiwn Sefydliad y Merched: Cais am hawl i ddefnyddio Cei'r Tywysog Siarl/</i> Ceredigion Federation of Women's Institutes: Application to use Prince Charles Quay for a baton handing-over event to the Pembrokeshire Federation as a commemoration of its centenary.	<i>Llythyr o eglurhad o berchnogaeth y cei wedi ei anfon i'r Ffederasiwn.</i> Letter of explanation of ownership of quay sent to the Federation on 22/5/14,
72	Menter Aberteifi: <i>Copiau o anfonebau ynglŷn â gwelliannau i Ystafell Radley.</i> Copies of invoices regarding improvements to Ystafell Radley.	<i>Y clerc i anfon llythyr yn achwyn am niwed paent i furlun P. S. Smith yn Ystafell Radley.</i> <i>Clerk to forward a complaint regarding paint spots on the P. S. Smith mural in Ystafell Radley.</i>
73	<i>Un Llais Cymru: Newyddlen Gwanwyn 2014.</i>	<i>Copiau ar gael yn swyddfa'r clerc.</i>

	One Voice Wales: Spring 2014 Newsletter.	Copies available at the clerk's office.
74	<i>Clwb Paffio Aberteifi/ Cardigan Boxing Club: Ebst o ddiolch am y rhodd.</i> Email of appreciation of grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
75	<i>Clwb Ceir Clasurool Aberteifi/ Cardigan Classic Car Club: Ebst o ddiolch am y rhodd.</i> Email of appreciation of grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
76	<i>Ysgol Gymunedol Aberteifi: Ystyried cyfrannu at gostau teithio'r ysgolion i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala o dan adran 137.</i> To consider a donation towards both schools' travelling expenses to the Urdd Eisteddfod at Bala under section 137. ( <i>Gwelir cofnodion Ebrill tudalen 836/Refer to April minutes page 836 – £400 allocated</i> )	<i>Y clerc i ofyn i'r ddwy ysgol anfon cais ysgrifenedig am gymorth ariannol.</i> The clerk to ask both schools for a written application for financial support
77	<i>4CG: Ebst o ddiolch am y llythyr o gefnogaeth.</i> Email of thanks for letter of support for the proposed feasibility study of a collaborative fish market in Cardigan.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
78	<i>Cardigan Branch Royal British Legion: Cadarnhad o ddyddiadau: Gwasanaeth Dydd y Lluoedd Arfog (28/6/14, Eglwys y Santes Fair am 2.30yp), Gwasanaeth Coffadwriaeth y Rhyfel Mawr (3/8/14 yn Eglwys y Santes Fair am 5.00yh).</i> Confirmation of dates: Armed Forces Day Service (28/6/14 at St Mary's Church at 2.30pm), WW1 Commemoration Service (3/8/14 at St Mary's Church at 5.00pm).	<i>Y clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â hen fferyllydd Nugent a'r Cyng. Llwyd Edwards ynglŷn â Shire Hall.</i> Clerk to make enquiries regarding the availability of the old Nugent chemist premises and Cllr Llwyd Edwards regarding Shire Hall.
79	Zurich Municipal: <i>Dogfennau ynglŷn â'r polisi yswiriant.</i> Documents regarding insurance policy. Renewal date: 7/6/14	<i>Cynigiwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y cyngor yn talu'r cyfrif. Eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.</i> It was proposed by Cllr Jane Roche that the bill be paid; seconded by Cllr Dai Brabrook.

**Swyddogion y Cyngor Sir/ County Council Officers:**

<b>Keith Morgan:</b>	<i>Pennaeth Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth.</i> Head of Assets and Transportation Services
<b>Bronwen Morgan:</b>	<i>Prif Weithredwr.</i> Chief Executive.
<b>Paul Arnold:</b>	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol.</i> Head of Municipal and Environmental Services
<b>Stephen Johnson:</b>	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol /</i> Head of Financial Service

**13. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

**Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 20 Mai.**

Confirmation of 20 May Sub-committee Minutes.

**Cynigiodd y Cyng. Gwynfi Jenkins bod cofnodion 20 Mai yn gywir; eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis.**

Cllr Gwynfi Jenkins proposed that the minutes of 20 May were correct; this was seconded by Cllr John Adams-Lewis.

**Materion yn codi:**

**Tud. 847 (Y Lleng Brydeinig):** Nid yw'r Gyfnewidfa Ŷd ar gael i'r arddangosfa o'r Rhyfel Mawr yn ystod y cyfnod. Cafwyd pris gan Menter Aberteifi o £250 am hurio Ystafell Radley am yr wythnos. Disgwylir ateb yn ôl oddi wrth Ms Sarah Johnson (adeilad swyddfa Santander) am ddefnydd y swyddfa.

**Matters arising**

Page 847 (*British Legion*): The Corn Exchange is not available to host the exhibition to commemorate the First World War. A quotation of £250 for the hire of Ystafell Radley has been received from Menter Aberteifi. The response to a request to Ms Sarah Johnson to consider hiring the Santander office, which will be closed at the end of June, is awaited.

**Dyweddod y Cyng. Catrin Miles bod partneriaid Gweithgor Llifogydd Aberteifi wedi cael cyfarfod buddiol yn ddiweddar.**

Cllr Catrin Miles stated that an informative meeting of the Cardigan Flood Working Group was held recently.

**14. Personél / Personnel.**

**15. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the Mayor's discretion.

- (a) **Cyfeiriodd y Cyng. Melfydd George at ddatganiad prif weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn Lloegr, Simon Stevens, yn ddiweddar pan gyhoeddodd bod hi'n bryd ailedrych ar ysbytai mawr, canoledig. Ychwanegodd bod angen sefydlu modelau newydd o ofal o amgylch ysbytai bach, lleol yn hytrach na datblygu gwasanaethau canoledig, ac y dylent gynnig gwasanaeth pwysig drwy ganolbwyntio ar wasanaeth o ofal am y nifer o gleifion hŷn y gellir rhoi triniaeth iddynt yn agosach adre.**

**Gofynnodd y Cyng. George i'r cyngor ystyried anfon llythyr yn cefnogi sylwadau'r prif weithredwr.**

**Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y cyngor yn cysylltu'n gyntaf gyda Chyfeillion Ysbyty Aberteifi a'r Gymuned gan ofyn am eu cefnogaeth yn y mater.**

- (a) Cllr Melfydd George drew the council's attention to the comment made by the National Health Service chief executive in England, Simon Stevens in calling for a shift away from big centralised hospitals. Mr Stevens added that there needed to be new models of care built around smaller, local hospitals rather than further development of centralised services and that they should play an important role in providing care especially for the growing number of older patients who could be treated closer to home. Cllr George asked the council to consider forwarding a letter supporting the mentioned comments of the chief executive. It was proposed by Cllr Clive Davies that the council initially contacts the League of Friends & Community of Cardigan Hospital asking for their support in the matter; this was seconded by Cllr Dai Brabrook.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30yh.***

*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.30pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....